# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# CYFARWYDDYD GWARCHODWYR

Pa Sgiliau y mae eu Hangen arnaf i?
Sut a Ble ydw i'n Cofrestru?
Beth yw fy Nghyfrifoldebau?
Pa Rannau o'r Rheoliadau y mae'n Rhaid i mi Wybod
Beth yw Cyfrifoldebau Deiliad y Drwydded?

Lluniwyd y canllaw cryno yma i ateb rhai cwestiynau sylfaenol, ond bydd yna adegau pan fydd angen eglurder a dyfnder pellach, yn enwedig mewn perthynas â'r Rheoliadau, ac, ar gyfer hyn, dylech gysylltu naill ai eich awdurdod trwyddedu (Awdurdod Lleol) neu'r awdurdod ble mae perfformiad yn digwydd (Awdurdod Lleol).

***SGILIAU GWARCHOD A DIOGELU PLANT***

Mae'r gyfraith yn dweud bod 'y Gwarchodwr yn gweithredu ***in loco parentis*** a dylai ddangos y gofal "y byddai disgwyl rhesymol i riant da roi i'r plentyn hwnnw*"'.*

- Bydd y plentyn yn gweithio mewn amgylchedd 'aeddfed' iawn a bydd angen i chi allu sicrhau eu bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddyn nhw, o ystyried eu hoedran a'u profiad.

- Bydd angen i chi gymryd i ystyriaeth, a bod yn ymwybodol o hyd a lled gallu'r plentyn i ganolbwyntio, eu presenoldeb wrth sgyrsiau oedolion, disgwyliadau, pwysau gan gymheiriaid a pherthynas gydag oedolion eraill yn y cynhyrchiad.

- Materion iechyd a Diogelwch ar lwyfan neu ar set h.y. polisi ysmygu, offer trydanol fel gwifrai, offer sain a chamerâu – gall y rhain i gyd fod yn beryglus iawn. Ni ddylai plant gael 'chwarae o gwmpas'.

- Efallai nad yw'r plentyn 'yn yr ysgol', ond dyw hynny ddim yn golygu bod yr oriau y maen nhw'n cael eu haddysgu'n llai pwysig na'r rheiny sy'n cael eu treulio yn ysgol (lleiafswm o 3 awr o diwtora gofynnol ar ddiwrnod ysgol).

- Mae angen i chi allu dweud pan fo'r plentyn yn sâl, wedi blino neu'n ofidus. Peidiwch â diystyru plentyn er mwyn bodloni amserlen y cynhyrchiad. Cofiwch, nid "oedolion bach" yw plant. Gall fod yn anodd yn aml i blant gyfathrebu eu teimladau mewn ffordd y mae oedolion yn deall, felly, bydd angen i chi fod yn gyfrwng rhyngddyn nhw a'r cwmni cynhyrchu.

- Mae rhychwant canolbwyntio plant yn fyrrach o lawer nag oedolion (yn dibynnu ar oed), felly mae angen y sgiliau arnoch i allu defnyddio, neu eu galluogi nhw i ddefnyddio eu hamser o ddim perfformio / ddim tiwtora sy'n arbennig o bwysig yn ystod ffilmio ac ar leoliad. Gall hyn gynnwys gweithgareddau corfforol neu efallai dylai'r plentyn orffwys a darllen llyfr yn dawel.

- Bydd angen sgiliau gwahanol wrth warchod mewn theatr yn hytrach na set ffilmio neu ar leoliad. Mae yna gymaint mwy o amser 'aros o gwmpas' yn ystod ffilmio a gall y tywydd arwain at fod y plentyn yn cael eu cyfyngu at garafán am gyfnodau hir - cofiwch fod eu lefelu egni yn uwch o lawer na ni ac efallai bydd angen sylw mwy unigol ar y plant.

- Bwlio - mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o fwlio bob adeg oherwydd gall fod yn gynnil iawn. Efallai ei fod yn hawdd gweld ymladd corfforol neu gic i'r ochr ond nid yw bob amser mor hawdd gweld

gair achlysurol neu jôc a gyfeirir, boed hynny mewn ffordd ddiniwed, at un plentyn penodol. Dylid taclo'r ymddygiad yma'n syth neu fe allai effeithio ar y plentyn a'r cynhyrchiad.

 Oes gan y cwmni Bolisi Gwarchod Plant? A Pherson Cyswllt Enwebedig gyda hyfforddiant neu brofiad diogelu plant i fod yn bwynt cyswllt i staff a gwarchodwyr? Gofynnwch iddyn nhw, gwnewch ymholiadau………….

 Arfer Diogel. Dylai staff cynhyrchu, actorion, cast, criw a gwarchodwyr (gan gynnwys gwisgwyr a choluro) fod yn ystyrlon o'u hymddygiad o gwmpas plant. Dylid osgoi unrhyw gysylltiad corfforol, oherwydd gellid camddehongli hyn, naill ai gan y plentyn eu hunain neu gan eraill. Byddwch yn synhwyrol, peidiwch â gadael plentyn ar eu pen eu hunain gydag oedolion eraill na rhoi eich hun mewn sefyllfa o wendid.

 Dylid dweud am unrhyw ymddygiad neu sylwadau anarferol neu annifyr gan blentyn mewn perthynas ag oedolyn yn y cynhyrchiad neu gymheiriaid wrth aelod uwch o'r cynhyrchiad (neu'r person diogelu plant enwebedig) a, ble mae'n briodol, cyfeirio hynny at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mewn sefyllfaoedd difrifol, ble mae cysylltu'n anodd, ffoniwch yr Heddlu!

 Os oes cyhuddiad yn erbyn aelod o'r cynhyrchiad, gwarchodwr, y cast neu gynorthwyydd, gofynnir am gydweithrediad llawn y rheiny sydd â gofal, yr aelod unigol o'r staff a'r awdurdod trwyddedu. Yn achos cyhuddiadau difrifol, bydd angen gwahardd yr aelod o staff yn syth hyd nes y bydd yr ymchwiliad wedi dod i ben. Efallai bydd angen gwahardd o'r theatr/ ystafelloedd ymarfer/lleoliad/set ffilm etc. y person y mae'r cyhuddiad wedi ei wneud yn eu herbyn neu sicrhau nad ydyn nhw'n cael cyswllt heb arolygaeth ag unrhyw blentyn.

 Yn olaf, cofiwch y dylai perfformio fod yn brofiad pleserus i'r plentyn ac i chi. Mae sgiliau cyfathrebu a thrafod da, boed hynny gyda'r plentyn neu gyda'r oedolion amrywiol sydd ynghlwm â'r cynhyrchiad, yn hanfodol.

***COFRESTRIAD***

Rhaid gwneud **Cais am Drwydded Gwarchodwr** i'r ALl ar gyfer yr ardal yr ydych CHI'n byw ynddo.

Mae ffurflenni cais ar gael ar gais. Unwaith y bydd y ffurflen gais wedi ei derbyn, trefnir dyddiad ar gyfer cyfweliad, gwneir gwiriadau geirda a'r GDG, a hefyd rhaid mynychu hyfforddiant i Warchodwyr sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o Ddiogelu Plant Sylfaenol, a rolau a chyfrifoldebau Gwarchodwr. Mae yna raglen dreigl o ddyddiadau hyfforddi trwy gydol y flwyddyn. Mae yna gost i Warchodwyr Proffesiynol ar gyfer eu gwiriad GDG ond does dim tâl gan unigolion sydd am Warchod plant fel Gwirfoddolwyr.

***NODER**: Bydd angen gwneud gwiriadau GDG (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) sy'n cael eu danfon at y GDG (rhan o'r Llywodraeth) felly does gan yr ALl ddim rheolaeth dros amser prosesu gwiriadau o'r fath. Os yw eich gwiriad yn dderbyniol, bydd y GDG yn rhoi tystysgrif i chi y bydd angen i chi ddangos i'r ALl wedyn.*

*Unwaith y bydd wedi ei rhoi, mae trwydded yn ddilys am 3 blynedd.* CADWCH EICH TRWYDDED GYDA CHI BOB ADEG PAN FYDDWCH YN GWEITHIO. EFALLAI BYDD RHAID I CHI BROFI EICH BOD WEDI EICH TRWYDDEDU.

***CYFRIFOLDEBAU***

**Mae eich cyfrifoldeb CYNTAF i'r plentyn sydd yn eich gofal. Tra byddwch chi'n gwarchod, ni ddylech chi fod yn ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau. Cofiwch – rydych chi *in loco parentis* (heblaw pan fo'r plentyn yng ngofal tiwtor).**

Eich cyfrifoldeb chi, ynghyd â Deiliad y Drwydded, yw sicrhau bod y Rheoliadau (ac unrhyw ofynion/amod pellach a roddir ar y drwydded gan Awdurdod Trwyddedu'r plentyn neu'r Awdurdod Lleol sy'n arolygu) yn cael eu cadw bob amser. Efallai y byddwch chi'n dod o dan bwysau gan y cwmni cynhyrchu i lacio'r Rheoliadau oherwydd ail-drefnu'r amserlen, ond mae'n rhaid i chi gofio mai eich dyletswydd bennaf yw **gofal y plentyn.** Mae meddu ar wybodaeth dda o'r Rheoliadau, gwybod ble i fynd am gymorth a chyngor, ynghyd â sgiliau negodi da, i gyd yn elfennau hanfodol wrth warchod yn dda.

Cofiwch, os yw 'pethau ddim yn iawn', a'ch bod chi'n gwrthwynebu, dydych chi ddim yn 'creu ffwdan'. Y rheswm pam fod yr ALI wedi rhoi trwydded gwarchod i chi, a'r disgwyliad y tu ôl i hynny, yw eich bod yn gofalu am y plentyn ac yn eu diogelu. Efallai bydd ofn arnoch chi na fydd y 'cwmni' yn eich cyflogi eto os byddwch chi'n gwrthwynebu. Rydym yn gwybod bod hyn yn gallu bod yn ofn, ond ni ddylai fod yn fwy na'ch prif gyfrifoldeb, sef hwnnw i'r plentyn/plant yn eich gofal. Dywedwch am unrhyw ddigwyddiadau os gwelwch yn dda wrth eich awdurdod trwyddedu i'w galluogi i drafod gyda'r cwmni dan sylw. Byddwn ni'n eich cefnogi, ond mae angen i chi roi gwybod i ni beth sy'n digwydd.

1. Dylech fod gyda'r plentyn bob adeg, boed hynny ar y set/ardal y llwyfan, ystafelloedd gwisgo, ar adeg hamdden, mannau cael prydiau ac egwyl.. Chi yw'r PERSON ALLWEDDOL y mae'r plentyn yn edrych atynt am ddiogelwch, eglurhad a chefnogaeth – chi yw'r ALLWEDD i brofiad perfformio hapus. Os yw'r cyfleusterau'n ddiffygiol dylech CHI drafod cyfleusterau gwell gyda'r cynhyrchiad. Dyw plant ddim yn rhywbeth 'ychwanegol' mewn cynhyrchiad, mae eu gofal yn flaenaf bob adeg. Gallwch gael cefnogaeth ychwanegol gan eich ALI trwyddedu, ALI trwyddedu'r plentyn neu'r ALI y mae'r perfformiad yn digwydd yn eu hardal.

2. Gall gwarchodwyr fod yn gyfrifol am fwyafswm o 12 o blant (os yw'r person yn athro preifat y plentyn dan sylw, gostyngir hyn i 3), caiff hyn ei ostwng yn sylweddol, gan ddibynnu ar oedran y plentyn, eu rhywedd neu anghenion arbennig etc., ymhlith y ffactorau eraill a ystyrir, mae'r lleoliad a'r cyfleusterau fel ystafelloedd gwisgo ac amserau perfformio plant unigol etc.. Tra bydd yr ALI yn ystyried cymarebau priodol yn ystod y broses ymgeisio, dylai Gwarchodwr hefyd sicrhau eu bod yn ystyried bod y cymarebau yma'n briodol cyn cymryd y gwaith.

3. Efallai bydd gofyn i blant deithio pellterau sylweddol i gymryd rhan mewn perfformiad a dylai'r trefnwyr ganiatáu amser ar gyfer hynny wrth drefnu'r amserlen ar gyfer pob diwrnod y perfformiad. Bydd yr ALI yn ystyried amser teithio ac, os oes angen, yn gosod amserau cychwyn a gorffen gwahanol i blentyn i ganiatáu teithio fel amod o drwydded, Serch hynny, dylai Gwarchodwr fonitro hyn oherwydd efallai bydd angen cytuno trefniadau ychwanegol os oes peryglu lles y plentyn o dan y trefniadau presennol.

   Felly, wrth ystyried lles y plentyn, efallai bydd yn fwy synhwyrol i gwmni cynhyrchu drefnu diwrnodau perfformiad plentyn mewn blociau pob wythnos (yn hytrach na diwrnod yma a thraw trwy wythnos), neu ddarparu llety'n agosach i'r perfformiad yn hytrach na theithio nifer o oriau pob dydd neu bob yn ail ddydd a mynd i'r ysgol rhwng hynny. *Cofiwch, gall amserlenni gael eu newid os nad ydyn nhw'n gweithio'n ddigon da. Os yw'r teithio'n broblem i'r plentyn, gallech godi hyn gyda'r cynhyrchwyr a chytuno ar lety mewn gwesty?*

4. Byw i ffwrdd o gartref - mae'r Gwarchodwr yn gyfrifol am y plentyn. Mae hyn yn cynnwys gweld bod llety'r plentyn yn dderbyniol ym mhob ffordd, a bod y plentyn yn llenwi eu hamser sbâr mewn ffordd gywir. Yn gyffredinol, efallai bydd angen i chi oruchwylio'n fwy na phe bai'r plentyn yn byw

gartref. Eto, os oes yna broblemau yma nad oes modd eu datrys, cysylltwch ag ALI trwyddedu'r plentyn neu'r ALI y mae'r perfformiad yn digwydd yn eu hardal.

5. Salwch neu niwed – ni ddylai plentyn fyth berfformio pan eu bod yn sâl. Os yw plentyn yn mynd yn sâl neu'n cael niwed tra eu bod yng ngofal y Gwarchodwr neu'r Tiwtor, rhaid cael cymorth meddygol a rhaid dweud yn syth wrth y rheini/gwarcheidwaid a'r ALI trwyddedu'n syth. Dylech fod â rhif ffôn i gysylltu â'r rhieni **bob amser**.

6. Perfformiadau Peryglus – Rhaid i'r rhain gael eu hawdurdodi **cyn** rhoi trwydded. *GWELWCH GYFRIFOLDEBAU DEILIAID TRWYDDED.* Os ydych chi'n credu bod perfformiad yn beryglus a heb ei awdurdodi, STOPIWCH, MEDDYLIWCH, YMGYNGHORWCH gyda'r cynhyrchwyr a'u swyddog Iechyd a Diogelwch. Os ydych chi'n credu bod yr hyn sy'n cael ei ofyn gan y plentyn yn dal i fod yn annerbyniol, **STOPIWCH** y perfformiad hyd nes y byddwch chi'n fodlon. Efallai bydd yn gymorth siarad â'r ALI y mae'r perfformiad yn digwydd yn ei ardal, yr adran Iechyd Amgylcheddol leol neu swyddog Iechyd a Diogelwch y theatr/stiwdio. Bydd y cynhyrchwyr yn gwybod pwy yw'r bobl yma a bydd eu rhifau ffôn ganddyn nhw.

7. Dylai cofnodion fod ar gael i'w gweld gan unrhyw swyddog sy'n ymweld o'r ALI. Mae Gwarchodwyr yn aml yn cael eu dynodi, gan y cwmni cynhyrchu, i gadw'r cofnodion mewn perthynas â'r plentyn:-
**<u>Gwelwch gofnodion i'w cadw gan ddeiliad y drwydded</u>**

***RHEOLIADAU***

 **Ymarferion** – Mae'r Ddeddf yn berthnasol i berfformiadau, ond nid i ymarferion. Mae'r Rheoliadau'n effeithio ar ymarferion serch hynny. Os ydyn nhw'n digwydd yn ystod cyfnod trwydded (rhwng y diwrnod perfformio cyntaf a'r olaf) maen nhw'n destun yr un cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r drwydded honno h.y. amser a lle'r perfformiad, amserau perfformio ac yn y blaen. Mae ymarferion hefyd yn cyfrif fel perfformiad wrth gyfrif hyd yr wythnos gwaith h.y. 6 diwrnod.

 **Addysg** - Mae'n rhaid i blant sy'n cael addysg breifat fel rhan o'u trwydded gael o leiaf y lleiafswm o addysgu - cyfwerth â thair awr y dydd i bob diwrnod ysgol arferol a gollir. Serch hynny, gellir cyfuno hyn dros bedair wythnos (neu gyfnod llawn trwydded os yw'n llai na phedair wythnos) i ganiatáu peth hyblygrwydd o ddydd i ddydd, gyda lleiafswm o chwe awr mewn unrhyw un wythnos a mwyafswm o bum awr mewn unrhyw un diwrnod.

e.e. 5 diwrnod o berfformio: *3 awr x 5 diwrnod = 15 awr x 4 wythnos = 60 awr o diwtora'n angenrheidiol dros 4 wythnos.*

 **Tiwtoriaid** – gall tiwtor addysgu mwyafswm o 5 o blant o lefelau gwahanol ar yr un pryd. Os yw'r plant o'r un lefel, gallan nhw addysgu hyd at fwyafswm o 12. Gall y tiwtor, yr ysgol a'r rheini, mewn cysylltiad ag ALI y plentyn (*disgresiwn yr ALI*), bennu fod nifer llai o blant i'w dysgu ar unrhyw adeg. Dylai tiwtoriaid gysylltu'n agos ag ysgol y plentyn, yn enwedig ble mae disgwyl absenoldebau hir o'r ysgol, er mwyn sicrhau cadw at y cwricwlwm er mwyn osgoi bod y plentyn ar ei ôl yn eu hastudiaethau. Cofiwch, mae addysg y plentyn yn bwysig a gellir gosod amodau ar Drwydded y plentyn, gan ALI y plentyn, er mwyn cynnwys anghenion addysgol y plentyn.

 **Disgresiwn y Gwarchodwr** Os yw'r Gwarchodwr yn fodlon fod anhrefn amserlenni wedi arwain at fod gofyn i'r plentyn weithio y tu hwnt i'r amser a bennwyd ac mae'r Gwarchodwr hefyd yn fodlon hefyd na fyddai lles y plentyn y dioddef, gall y Gwarchodwr adael i'r plentyn barhau am 60 munud pellach. Mae hyn a bwrw nad yw cyfanswm y gwaith a wneir yn ystod y dydd hwnnw yn fwy na'r hyn a ganiateir i blentyn yr oed hwnnw (**Gweler TABL B – Tabl Perfformiadau a Gweithgareddau**). Pan awdurdodir UNRHYW estyniad dylai'r Cynhyrchydd/Gwarchodwr hysbysu'r ALI y mae'r plentyn yn gweithio yn ei ardal, naill ai'r un dydd neu'r dydd canlynol.

 **Gwaith nos** er nad oes amser cychwyn cynharaf ac amser gorffen hwyraf **(Gweler TABL B – Tabl Perfformiadau a Gweithgareddau)** caniateir i blentyn weithio yn y nos (hynny yw, ar ôl yr amser

gorffen hwyraf a chyn yr amser dechrau cynharaf) os gwneir cais i awdurdod lleol y plentyn. Gan fod lles y plentyn yn flaenaf, mae gwaith o'r fath yn destun cyfyngiadau. Mae unrhyw berfformio ar ôl hanner nos yn cyfrif fel rhan o'r amser perfformio a ganiatawyd ar gyfer y diwrnod cynt. Mae'n **RHAID** i'r plentyn gael egwyl o o leiaf 16 awr cyn dychwelyd at fan y perfformiad ar ôl gwaith nos ac os yw e/hi'n gweithio'r nos ar **2 noson yn olynol, NI ALL** e/hi wneud gwaith nos pellach am O LEIAF wythnos arall (7 diwrnod).

***GWYBODAETH YCHWANEGOL***

❑ A oes gan y cwmni, fel cyflogwr, Bolisi Diogelu Plant a pherson enwebedig â hyfforddiant neu brofiad diogelu plant fel pwynt cyswllt i Warchodwyr, ac sy'n gallu cynorthwyo gyda gwneud atgyfeiriad i adran y gwasanaethau cymdeithasol perthnasol ar gyfer yr ardal y mae'r perfformiad ynddi?

❑ Gall swyddog awdurdodedig yr ALI y mae perfformiad yn digwydd yn ei ardal fynd i mewn ar unrhyw adeg i unrhyw fan ble mae perfformiad, trwyddedig neu heb ei drwyddedu, ac y mae A.36 y Ddeddf Plant a Phobl Ifanc yn berthnasol iddo a gall wneud ymholiadau ynglŷn ag unrhyw blentyn y maen nhw'n amau eu bod yn cymryd rhan mewn perfformiad.

❑ Gall yr ALI ofyn am ba bynnag wybodaeth y maen nhw'n teimlo sy'n briodol at ddibenion penderfynu rhoi trwydded ai peidio. Gall ALI hefyd wneud hynny o ymholiadau angenrheidiol i'w galluogi i benderfynu a ddylid rhoi trwydded gydag amod i warchod enillion y plentyn.

❑ Perfformiadau Peryglus. Ni chaiff unrhyw un o dan 12 oed gael eu hyfforddi i gymryd rhan mewn 'perfformiadau o natur beryglus'. Gall person 12 i 16 oed (plentyn dros oedran ysgol gorfodol) gael eu hyfforddi i gymryd rhan mewn perfformiadau peryglus mewn rhai amgylchiadau. Dylai unrhyw berfformiad y gellid ei ystyried yn beryglus gael ei drafod â'r ALI cyn rhoi trwydded. Efallai bydd angen gwiriadau cyn cytundeb y gall perfformiad o'r natur hon ddigwydd. Gall hyn gynnwys archwiliadau gan yr adrannau Iechyd Amgylcheddol ac Iechyd a Diogelwch.

❑ Gellir gosod amodau ar Drwydded y plentyn gan yr ALI sy'n rhoi (amserau, gwaith nos, tiwtora etc.) ynghyd â'r gofynion cyfreithiol yn y ddeddfwriaeth***.***

❑ Plant nid o'r DU yn gweithio yn y wlad hon. Dylid gwneud ceisiadau i'r ALI am yr ardal ble mae'r ymgeisydd yn byw neu mewn busnes (os nad oes safle yn y DU, yna gellir gwneud cais i'r ALI am yr ardal ble mae'r perfformiad cyntaf yn digwydd) neu ble mae'r plentyn yn byw yn ystod cyfnod perfformiad. Mae gofyn i blant nad ydynt o'r DU gael eu trwyddedu er mwyn perfformio yn y DU.

❑ Mae'n rhaid i blant o'r DU sy'n perfformio dramor gael eu trwyddedu i wneud hynny gan y Llys Ynadon.

❑ Perfformiadau heb Drwydded. Gall plentyn o unrhyw oedran gymryd rhan mewn perfformiadau heb eu trwyddedu ar 4 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 6 mis, yn amodol ar gydymffurfiad ag oriau gwaith, gorffwys a phrydiau a bennir yn y Rheoliadau. **Nid yw'r eithriad yma'n berthnasol** os oes angen unrhyw absenoldeb o'r ysgol i alluogi'r plentyn i gymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd, na os yw'r plentyn yn derbyn tâl am y perfformiad.

**CYFRIFOLDEBAU DEILIAD TRWYDDED (YMGEISYDD)**

Rhaid i'r cais gael ei wneud gan y person neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu, cynhyrchu neu gynnal y gweithgaredd neu'r perfformiad y bydd y plentyn y cymryd rhan ynddo. Rhaid gwneud y cais yn ysgrifenedig i'r awdurdod lleol perthnasol o leiaf 21 diwrnod cyn bod angen y drwydded. Os rhoddir llai o rybudd, mae gan yr awdurdod yr hawl i wrthod rhoi trwydded am nad oes digon o amser iddyn nhw ddilyn eu cyfrifoldebau; mae'n **hynod annhebygol** y bydd trwydded yn cael ei rhoi os derbynnir y cais llai na pum diwrnod gwaith cyn y dyddiad y mae angen y drwydded. Os rhoddir y drwydded, bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod yr amodau i gyd yn cael eu bodloni a bod y plentyn yn cael eu diogelu'n iawn.

Noder: Rhoddir copi o drwydded y plentyn i'r ymgeisydd, yr ALI am yr ardal y mae'r perfformiad neu'r gweithgaredd yn digwydd ynddi a rhieni/gwarcheidwad y plentyn.

❑ Mae'n RHAID i gynyrchiadau sicrhau bod Trwydded pob plentyn a chofnodion Gwarchodwyr/Tiwtoriaid ar gael ym man pob perfformiad pan fo'r plentyn yn gweithio. Unwaith bydd cynhyrchiad ar ben, dylai'r dogfennau yma gael eu cadw gan Ddeiliad y Drwydded am o leiaf 6 mis yn y cyfeiriad a roddir ar y cais am drwydded (ac mae angen i hynny fod y Brif Swyddfa ac NID cyfeiriad y lleoliad h.y. preswylfa dros dro cynhyrchiad mewn stiwdio neu leoliad) os gofynnir amdanynt i'w harolygu gan swyddog o'r AALI/ALI yn nes ymlaen. **<u>Gweler TABL A - 'Cofnodion i'w cadw gan ddeiliad y drwydded'</u>**

❑ Mae'n RHAID i gynyrchiadau sicrhau fod 'asesiad risg' Iechyd a Diogelwch wedi ei wneud ym man y perfformiad:- polisi ysmygu ar y set ac i ffwrdd o'r set; rheoliadau / tystysgrif tân, person i gysylltu â nhw am gymorth cyntaf. Dylai pob aelod o staff, gwarchodwyr a phlant gael eu gwneud yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer gwagio. Os nad ydych chi wedi cael gwybod am y rhain – GOFYNNWCH. Gallwch gysylltu â'r Adran Iechyd Amgylcheddol berthnasol am fanylion pellach am Iechyd a Diogelwch - Deddf Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

**TABL A** Cofnodion i'w cadw gan ddeiliad y drwydded

1. Y drwydded.

2. Y manylion canlynol mewn perthynas â phob dydd mae'r plentyn yn bresennol mewn lle perfformiad neu le ymarfer—

a) y dyddiad;
b) amser cyrraedd lle'r perfformiad neu ymarfer;
c) amser gadael lle'r perfformiad neu ymarfer;
d) amserau pob cyfnod y bu'r plentyn yn cymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer;
e) amser pob egwyl ar gyfer gorffwys;
f) amser pob egwyl ar gyfer prydiau; ac
g) amserau unrhyw waith nos a awdurdodir gan yr awdurdod trwyddedu

3. Ble gwneir trefniadau ar gyfer addysg y plentyn gan athro preifat, dyddiad a hyd pob gwers a'r pwnc a ddysgir.

4. Manylion anafiadau a salwch (os oes rhai) y mae'r plentyn wedi eu cael ym man y perfformiad neu'r man ymarfer, gan gynnwys dyddiadau'r anafiadau a gan ddweud a wnaeth yr anafiadau neu salwch atal y plentyn rhag bod yn bresennol yn y man perfformio neu ymarfer.

5. Dyddiadau'r egwyliau mewn perfformiadau sy'n ofynnol o dan reoliad 29(1).

6. Swm yr holl arian a enillir gan y plentyn trwy gymryd rhan yn y perfformiad ac enwau, cyfeiriadau a disgrifiad y sawl y talwyd y symiau hynny iddynt.

7. Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n rhoi tystysgrif gydag amod bod y symiau a enillir gan y plentyn i gael eu trin mewn ffordd a gymeradwyir gan yr awdurdod, swm yr arian a'r ffordd y mae wedi cael ei drin.

**TABL B** Tabl Perfformiadau a Gweithgareddau

**PLANT MEWN ADLONIANT**
**CYFYNGIADAU MEWN PERTHYNAS Â PHERFFORMIADAU**

| Pwnc | 0 i 4 oed | 5 i 8 oed | 9 oed a throsodd |
|---|---|---|---|
| **Mwyafswm yr oriau yn y man perfformio neu ymarfer** (Rh.24) | **5 awr** | **8 awr** | **9.5 awr** |
| **Amserau cynharaf a hwyraf a ganiateir yn y man perfformio neu ymarfer** (Rh.23) | **7am i 10pm** | **7am i 11pm** | **7am i 11pm** |
| **Cyfnod hiraf o berfformiad neu ymarfer parhaus** (Rh.24) | **30 munud** | **2.5 awr** | **2.5 awr** |
| **Mwyafswm cyfanswm yr oriau perfformio neu ymarfer** (Rh.24) | **2 awr** | **3 awr** | **5 awr** |
| **Lleiafswm egwyliau ar gyfer prydiau a gorffwys** (Rh.25) | **Rhaid i unrhyw egwyliau fod am o leiaf 15 munud. Os yw'r plentyn yn y man perfformio neu ymarfer am fwy na 4 awr, rhaid i egwyliau gynnwys o leiaf un egwyl o o leiaf 45 munud am fwyd.** | **Os yw'r plentyn yn y man perfformio neu ymarfer am fwy na 4 awr ond llai na 8 awr, mae'n rhaid iddyn nhw gael un egwyl ar gyfer bwyd o o leiaf 45 munud ac o leiaf un egwyl o 15 munud**<br><br>**Os yn bresennol yn y man perfformio neu ymarfer am 8 awr neu fwy, mae'n rhaid iddyn nhw gael yr egwyliau a nodir uchod ac un egwyl arall o 15 munud.** | **Os yw'r plentyn yn y man perfformio neu ymarfer am fwy na 4 awr ond llai na 8 awr, mae'n rhaid iddyn nhw gael un egwyl ar gyfer bwyd o o leiaf 45 munud ac o leiaf un egwyl o 15 munud**<br><br>**Os yn bresennol yn y man perfformio neu ymarfer am 8 awr neu fwy, mae'n rhaid iddyn nhw gael yr egwyliau a nodir uchod ac un egwyl arall o 15 munud.** |
| **Addysg** (Rh.15) | **Dd/B** | **3 awr y dydd (mwyafswm o 5 awr y dydd). 15 awr yr wythnos, dysgu ar ddiwrnodau ysgol yn unig. Lleiafswm o 6 awr mewn wythnos os yw'n cydgasglu dros gyfnod o 4 wythnos neu lai.** | **3 awr y dydd (mwyafswm o 5 awr y dydd). 15 awr yr wythnos, dysgu ar ddiwrnodau ysgol yn unig. Lleiafswm o 6 awr mewn wythnos os yw'n cydgasglu dros gyfnod o 4 wythnos neu lai.** |
| **Lleiafswm egwyl rhwng perfformiadau** (Rh.25) | **1 awr 30 munud** | **1 awr 30 munud** | **1 awr 30 munud** |
| **Mwyafswm y diwrnodau olynol i gymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer** (Rh.28) | **6 diwrnod** | **6 diwrnod** | **6 diwrnod** |

**Noder: Dylai awdurdodau lleol nodi Rheoliad 5 sy'n caniatáu i'r awdurdod trwyddedu gyfyngu ymhellach ar yr oriau awdurdodedig, egwyliau etc., yma a gosod amodau ychwanegol ar y drwydded os yw hyn er budd y plentyn unigol.**

## CYRRAEDD Y LLEOLIAD

- Cyrhaeddwch cyn y plant, yn enwedig os yw'r lleoliad yn anghyfarwydd i chi. Bydd hyn yn rhoi amser i chi edrych o gwmpas a chwrdd â phobl eraill sy'n ymwneud â'r digwyddiad.
- Cyflwynwch eich hun i Ddeiliad y Drwydded neu eu dirprwy ac unrhyw un perthnasol arall (h.y. rheolwr llawr/llwyfan, gwisgwyr, etc.).
- Gwriwch yr ardaloedd y bydd plant ynddynt ar gyfer peryglon .
- Gwiriwch allanfeydd tân er mwyn gallu dianc.
- Dysgwch beth yw sŵn y larwm tân a threfnwch ymarfer tân a fydd yn cynnwys y plant.
- Gwiriwch y cyfleusterau cymorth cyntaf ac a oes rhywun cymwys mewn Cymorth Cyntaf yn y lle.
- Gwiriwch fod yr ystafelloedd gwisgo, toiledau, ystafell ddysgu, ystafell orffwys, trefniadau bwyta a chyfleusterau eraill yn addas.
- Wrth wirio ystafelloedd gwisgo, cofiwch y dylai plant 5 oed a throsodd wisgo dim ond â phlant eraill o'r un rhyw.
- Cysylltwch â Gwarchodwyr eraill sydd wedi cael eu cyflogi a gweithiwch fel tîm.
- Byddwch â rhestr o enwau'r plant y byddwch yn gofalu amdanynt. Os oes mwy na 12, dylai pob Gwarchodwr fod yn sicr pwy sy'n gofalu am ba blant.
- Gwiriwch drwydded perfformio pob plentyn a nodwch unrhyw amodau arni. Rhaid i gopi Deiliad y Drwydded fod ar gael yn y man ble mae'r digwyddiad.
- Sicrhewch fod yna restr o fanylion cyswllt brys a chartref y plant sydd ar gael i chi bob amser rhag ofn bod angen i chi gysylltu â'r rhiant/gwarcheidwad.
- Gwiriad gyda Deiliad y Drwydded i weld a oes problemau neu ofynion meddygol gan unrhyw blentyn. Mae'r wybodaeth yma'n gyfrinachol ond, fel Gwarchodwr, mae angen i chi wybod. Os bydd plentyn yn sâl, efallai bydd yna rywbeth yn y nodiadau a fydd yn rhoi syniad i chi o'r broblem. Os yw'r plentyn yn cael eu cludo i'r ysbyty neu'n cael eu gweld gan feddyg, efallai bydd gwybod bod y plentyn yn cymryd meddyginiaeth yn cael effaith ar y driniaeth. Efallai bydd angen i chi atgoffa plentyn i gymryd meddyginiaeth ar adeg benodol.
- Os ydych chi'n anfodlon ag unrhyw rai o'r cyfleusterau neu'r trefniadau, dylech fynegi'ch pryderon wrth Ddeiliad y Drwydded a thrafod amodau gwell. Os nad yw'r drafodaeth yma'n llwyddiannus, mae'n rhaid i chi ystyried a ydych chi'n mynd i ganiatáu i'r plant gymryd rhan yn y digwyddiad. Yn yr amgylchiadau yma, mae'n rhaid i chi ddweud wrth yr Awdurdod Lleol priodol cyn gynted â phosibl, gan roi cymaint o fanylion â phosibl am y problemau, a'r camau a gymerwyd gennych.

## RHESTR WIRIO – CYRRAEDD Y LLEOLIAD

Gall fod yn ddefnyddiol i chi lungopïo'r dudalen hon i'w defnyddio ym mhob swydd o waith.

| | TICIWCH |
|---|---|
| Dewch yn gyfarwydd â gosodiad y lleoliad | |
| Nodwch bob man peryglus | |
| Nodwch ble mae'r allanfeydd tân | |
| Gofynnwch i gael clywed sŵn y larwm tân | |
| Trefnwch ymarfer tân (gyda larwm) i'r plant | |
| Gwnewch yn siŵr ble mae'r cyfleusterau cymorth cyntaf | |
| Edrychwch ar yr ystafelloedd gwisgo (rhai ar wahân i blant 5 oed a throsodd) | |
| Dewch o hyd i'r toiledau a'u harchwilio | |
| Dewch o hyd i'r ystafelloedd gorffwys a'u harchwilio | |
| Dewch o hyd i'r ystafell ddosbarth (os yw'n berthnasol) a'i harchwilio | |
| Gwiriwch y trefniadau ar gyfer prydiau | |
| Gwiriwch gyfanswm nifer y plant | |
| Gwiriwch gyfanswm nifer y gwarchodwyr | |
| Sicrhewch eich bod yn cael rhestr o enwau'r plant | |
| Gwiriwch drwydded perfformio pob plentyn | |
| Sicrhewch fod gennych fanylion cysywllt brys y cartref i bob plentyn | |
| Ble mae hynny'n berthnasol, sicrhewch fod gennych fanylion problemau meddygol pob plentyn a/neu eu meddyginiaeth. | |
| Sicrhewch fod pob plentyn yn cael eu cofrestru i mewn ac allan gan oedolyn awdurdodedig. | |

Gwiriwyd gan: ____________________

Dyddiad: ____________________